



Agriculture & Horticulture
DEVELOPMENT BOARD

Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth

Cynllun Iaith Gymraeg: 2009

Cyflwyniad

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Dyma gynllun y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) ac mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnesau cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny.

Yn y cynllun hwn, mae'r term cyhoedd yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r mwyafrif o'n cyswllt a'r cyhoedd gyda ffermwyr a thyfwyr sy'n talu ardollau statudol i'r AHDB o dan y Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008.

Mae'r cynllun yn ymdrin â'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i'r cyhoedd trwy ein sefydliadau sectorol. Yn bennaf mae'n ymwneud a rhai agweddau o weithgaredd a gyflwynwyd gan ein sefydliad yn y sector Ilaeth, DairyCo, sy'n codi tua 13% o'i ardollau o ffermwyr Ilaeth yng Nghymru.

Mae gwybodaeth bellach am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.byig-wlb.org.uk).

Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 21 y Ddeddf – ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth yn weithredol ar 30/03/09.



Cefndir y sefydliad

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a sefydlwyd dan y Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008. Daeth yn weithredol ar Ebrill 1af 2008.

Mae'r AHDB yn sefydliad statudol wedi'i gyllido gan ardollau sy'n gwasanaethu sectorau cig a da byw (gwartheg, defaid a moch) yn Lloegr; garddwriaeth fasnachol, llaeth a thatws ym Mhrydain; a grawnfwydydd a hadau olew ym Mhrydain.

Ein rôl yw helpu i wella effeithiolrwydd ac ysbryd cystadleuol amrywiol sectorau amaethyddol a garddwriaethol ym Mhrydain.

Dim ond er budd y sector penodol perthnasol y gellir defnyddio'r ardollau a godir gan ffermwyr/tyfwyr ymhob sector, ac mae'r cyfrifoldeb am osod a gweithredu'r strategaethau i ddefnyddio'r incwm o ardollau a gasglwn wedi'i ddirprwyo i fyrdau ein chwe sefydliad sector:

- Grawnfwydydd a hadau olew (y DU) - HGCA
- Garddwriaeth fasnachol (Prydain) - Horticultural Development Company
- Cig eidion a chig oen (Lloegr) - EBLEX
- Llaeth (y DU) - DairyCo
- Moch (Lloegr) - BPEX
- Tatws (y DU) - y Cyngor Tatws

Bydd yr AHDB a'i sefydliadau sector wedi'u lleoli ar y cyd ym Mharc Stoneleigh, Swydd Warwick erbyn canol 2010. Bydd y broses yma'n cychwyn yn ystod yr Hydref 2008 a bydd yn gorffen pan symudir i mewn i adeilad newydd ar safle Stoneleigh yn ystod 2010.

Mae rhagor o wybodaeth am AHDB ar ei wefan: www.ahdb.org.uk.

Darparu gwasanaethau

Pan fyddwn yn darparu gwasanaethau sydd wedi eu targedu'n benodol at dalwyr ardollau yng Nghymru byddwn yn sicrhau bod cyn gymaint â phosibl o'n gwasanaethau ar gael yn Gymraeg. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael yn Gymraeg.

Ein swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau yr ymgwymerir â hwy ar ein rhan gan drydydd partïon

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon wedi eu lleoli yng Nghymru neu du allan i Gymru yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod trydydd partïon yn darparu'r gwasanaeth hwnnw yn unol â'r cynllun hwn.

Safonau ansawdd

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

Bydd ein harfer safonol fel a ganlyn:

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamserau targed ar gyfer ateb yr un peth â'r amserau targed ar gyfer ateb i lythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg (15 diwrnod gwaith).

Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn neu grŵp o ddalwyr ardollau yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny'n Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr fel rhan o bostio ehangach Prydain Fawr/ Deyrnas Unedig, byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan y Bwrdd, i helpu asesu'r angen i ddarparu fersiynau dwyieithog o'r rhai a caiff eu dosbarthu yng Nghymru.

Bydd gohebiaeth safonol neu gylchlythyron wedi ei gynhyrchu ar gyfer Cymru yn unig yn ddwyieithog.

Os bydd rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth dros yr e-bost yn ogystal â gohebiaeth bapur.

Caiff pob copi caled o ohebiaeth Gymraeg a anfonir ei lofnodi.

Gohebu dros y ffôn

Oherwydd ein lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, pan fyddwn yn gosod llinellau cymorth, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaeth neu gymorth i'r cyhoedd yng Nghymru yn benodol byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebhir hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Cyfarfodydd gyda'r Cyhoedd

Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, neu gyfieithu dilynol, o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd agored rydym yn cynnal gyda'r Cyhoedd, oni fyddwn yn gwybod y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog ac yn gwahodd y cyhoedd i'n hysbysu ymlaen llaw o'r iaith y dymunant ei siarad.

Byddwn yn hysbysu'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael – ac annog cyfraniadau yn Gymraeg.

Cyfarfodydd eraill gyda'n cyhoedd yng Nghymru

Oherwydd ein lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosib, fodd bynnag, y bydd yn briodol os bydd prosiectau penodol wedi eu lleoli yng Nghymru a bydd ystyriaeth yn cael ei roi i hyn.

Cysylltiadau eraill gyda'n cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn cynnal **arolygon cyhoeddus** fel rhan o arolygon Prydain/ DU ehangach, byddwn yn asesu'r angen i ddarparu fersiynau dwyieithog yng Nghymru. Bydd arolygon a ymgwymerir yng Nghymru yn unig yn ddwyieithog.

Pan fyddwn yn trefnu **seminarau, cyrsiau hyfforddi** neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer ein cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad byddwn yn ystyried dewis iaith y mynychwyr ac a oes modd dod o hyd i hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith.

Ein delwedd gyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ac arddangosfeydd

Caiff gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn i dargedu'r cyhoedd yng Nghymru yn benodol eu cynhyrchu'n gyfan gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Dim ond yn Gymraeg y cyhoeddir hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Bydd unrhyw arddangosfeydd clywedol, teithiau clywedol neu gyfrwng rhyngweithiol rydym yn eu paratoi ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn benodol yn ddwyieithog.

Cyhoeddiadau

Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan y Bwrdd, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd yn Gymraeg – unai mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a'n harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall

Gwefannau

Bydd gwefan gorfforaethol AHDB ynghyd â phrif wefannau HGCA, HDC, DairyCo â'r Cyngor Tatws yn cynnwys un neu fwy o dudalennau rhagarweiniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglŷn â dylunio gwefannau.

Pan fyddwn yn cynnwys cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu cynnwys ar yr un pryd, os ydynt ar gael.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan y Bwrdd, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig yn Gymraeg – unai mewn fersiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os bydd un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – ac ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddosberthir yng Nghymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un a chânt eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

O ran y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.

Gellir cyhoeddi yn Saesneg hysbysiadau recriwtio sy'n ymddangos mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg a ddosberthir ledled y DU, oni bai ei bod yn hanfodol i ddeiliad y swydd siarad Cymraeg, ac os hynny, gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff sy'n ymddangos unrhyw le arall yng Nghymru yn dilyn yr uchod.

Gweithredu'r cynllun

Staffio

Nid oes gennym swyddfeydd yng Nghymru. Er hynny, byddwn yn chwilio am wybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr swyddi a staff presennol.

Recriwtio

Ar gyfer unrhyw swyddi sy'n cynnwys cyswllt sylweddol a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried p'un a yw bod yn rhugl yn Gymraeg yn sgil ddymunol neu'n hanfodol – a nodir hyn yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion.

Hyfforddiant iaith

Byddwn yn cefnogi ac yn ariannu hyfforddiant i staff sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau – ac sydd am ddysgu Cymraeg, neu sydd am wella'u Cymraeg.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Wrth i ni ddatblygu a phrynu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu byddwn yn ystyried yn llawn *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog y Bwrdd*.

Gweithio mewn partneriaeth

Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn ni yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r cynllun hwn.

Dim ond at bartneriaethau ffurfiol sy'n delio â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'r uchod yn cyfeirio ato.

Trefniadau mewnol

Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn **awdurdod**, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Bydd gweithredu'n unol a'r cynllun yn fater o **gydymffurfiaeth**.

Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i **gydlynu**'r gwaith sydd ei angen i ddarparu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Byddwn yn paratoi, ac yn diweddarau yn barhaus **cynllun gweithredu** manwl, y cytunir arni gan y Bwrdd, gan nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu mor fuan â phosib yn dilyn y dyddiad hwnnw. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd i sicrhau ein bod yn gwireddu'n cynllun iaith o fewn yr amser a gytunwyd.

Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar eu cais.

Cyhoeddir y cynllun hwn i'n staff, a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn man amlwg.

Fe fyddwn yn ymgymryd ag **unrhyw fath o gyswilt** efo'r cyhoedd yng Nghymru, na sydd wedi ei ddisgrifio'n benodol yn y cynllun hwn, mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn y cynllun.

Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth i dalwyr ardollau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, fe fyddwn yn ei ryddhau yn yr iaith y mae'n bodoli ar ffeiliau/ archifau'r sefydliad.

Adolygu a diwygio'r cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'i roi ar waith.

Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i amgylchiadau yr ydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau i wella

Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau i'w wella, at:

Pennaeth Cysylltiadau
Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
Parc Stoneleigh
Swydd Warwick
CV8 2TL

neu drwy e-bost at: info@ahdb.org.uk

Byddwn yn cydweithio efo'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion - ac ar unrhyw ymchwiliad a gynhelir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Atodiad A – Prif dargedau ar gyfer gweithredu'r cynllun

Targed	Dyddiad cwblhau
Cyfarwyddyd Staff	
Darparu cyfarwyddiad i'n holl staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i gysidro goblygiadau iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau a sut i ddelio gyda gohebiaeth ac ymholiadau Cymraeg. Hefyd cynnwys yn yr amodau gwasanaeth diwygiedig.	Medi 2009
System sgorio	
Cytuno system sgorio gyda'r Bwrdd ar gyfer: Gohebiaeth safonol, Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig â Chyhoeddiadau	Ebrill 2009
Staffio	
Adnabod manau gwaith a swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu yn ddymunol.	Medi 2009
Gwefannau	
Rhoi tudalen(nau) iaith Gymraeg ar brif wefan AHDB a hefyd gwefannau'r sefydliadau sectorol sydd â chylch gwaith Prydain Fawr neu Deyrnas Unedig.	Rhagfyr 2009
Trefniadau mewnol	
Darparu cyfarwyddiad cyfnodol ar gyfer rheolwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau	Mai 2009
Trefnu gwasanaeth cyfieithu cymwys	Ebrill 2009